



YSGOL UWCHRADD BODEDERN

SWYDD-DDISGRIFIAD

ENW:

TEITL Y SWYDD: ARWEINYDD MAES DYSGU A PHROFIAD CYMRAEG

MAES: CYMRAEG

AMODAU GWAITH: Swydd Amser Llawn: Prif Raddfa + CAD 1a (£8,436 Medi 2021)

ATEBOL I'R: Pennaeth yn uniongyrchol a thrwy'r

Arweinydd Cynnydd perthnasol am gyfrifoldebau bugeiliol (os yn berthnasol)

PRIF GYFRIFOLDEBAU:

1. Addysgu 23 gwerns/wythnos i flynyddoedd 7 - 13
2. Anghenion bugeiliol llys / aelwyd neu gyfrifoldebau dyddiol ac wythnosol cyfatebol
3. Arwain ar holl faterion Safonau, Dysgu ac Addysgu ac Ansawdd y Maes Dysgu Cymraeg
4. Gwasanaethu fel aelod o Dîm Arweinyddol yr Ysgol, gyda chyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol a braenaru drwy ddefnyddio rhaglenni gwella ysgol byd eang.
5. Cyd-lunio Adroddiad strategol megis Hunan Arfarnu'r ysgol dan arweiniad yr UDA (agweddau penodol i'w pennu)
6. Cyd-lunio Blaenoriaethau a Chynllun Gwella'r adran / Ysgol dan arweiniad yr UDA (agweddau penodol i'w pennu) Mae model cyffrous yn cael ei ddatblygu yma I sicrhau fod atebolrwydd yn egnio o'r tu mewn ac nid drwy bresgripsiwn, yn hannu o ddisgwyliadau cytunedig ar gyfer addysgu, a gwirio ansawdd.
7. Arweinydd Tîm staff yr adran Gymraeg

CYFLWYNIAD:

Fel gyda phob maes cyfrifoldeb y swyddogaeth greiddiol yw dangos blaengaredd a chynnig arweiniad yn y maes gan wneud argraff fel dylanwad sylweddol iawn ar yr Addysgu a'r Dysgu.

Mae'r deilydd yn aelod o Dim Arweinyddol yr ysgol. Mae hefyd yn gyfrifol am drefniadaeth a gweinyddiad cyffredinol Cymraeg fel pwnc ac am arwain datblygiadau yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol. Prif flaenoriaeth Pennaeth Pwnc Craidd / Arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad yw'r Addysgu a safonau cyflawniad. Gan hynny bydd yn monitro ac arfarnu effeithiolrwydd y sefyllfaoedd dysgu yn eu holl agweddau, asesu perfformiadau'r disgyblion a'u harwain tuag at gynnydd gan gydweithio'n glos â'r Cydlynnydd Llythrennedd, Pennaeth / Dirprwyon, Ymgynghorwyr a Swyddogion yr AALI. O Fedi 2020 mae'r ysgol yn rhan o weithredu gwaith arloesol a rhyngwladol Dr Lynn Sharratt ble roddir pwyslais ar gefnogi arweinwyr. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn arweiniad ac hyfforddiant ardderchog ac yn gweithredu o frewn trefn atebolrwydd teg a thryloyw sy'n

egnio o'r tu mewn ac nid drwy bresgripsiwn, yn hannu o ddisgwyliadau cytunedig ar gyfer addysgu, a gwirio ansawdd.

DYLETSWYDDAU:

(a) Cyffredinol

- goruchwyllo disgyblion yn unol â threfn dyletswyddau'r ysgol
- cynnal cyfarfodydd penodol gyda rhieni
- hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol a chymunedol yn ysbryd a delwedd gymunedol yr ysgol gan gynnwys y cynulliadau boreol
- gweithredu fel tiwtor i lys/aelwyd yn unol â gofynion swydd ddisgrifiad tiwtor neu gyfrifoldebau dyddiol ac wythnosol cyfatebol
- ysgwyddo cyfrifoldebau a dyletswyddau yn y maes - bydd y rhain yn cylchdroi dros gyfnod o flynyddoedd.
- creu awyrgylch ddeniadol a bywiog yn yr ystafell ddysgu ac yn y cynteddau a'r rhodfeydd drwy arddangosfeydd chwaethus
- Arwain a mynychu cyfarfodydd adrannol, cyfarfodydd staff a chyfarfodydd eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol a mynychu cyrsiau sirol, rhanbarthol a chenedlaethol (mewn ymgynghoriad â'r TP) i hyrwyddo datblygiad personol ac ymgyfarwyddo â datblygiadau newydd.
- O dro i dro bydd gofyn casglu gwybodaeth frys am ddisgybl arbennig i'r Arweinydd Cynnydd / Tiwtor drwy gyfrwng "nodyn brys". Rhaid ymateb yn ddiymdroi i geisiadau o'r fath. Yn yr un modd, pan fo plentyn yn absennol o'r ysgol am gyfnod, rhaid sicrhau gwaith iddo a'i roi i'r Swyddog Presenoldeb

(b) Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu Ychwanegol – cydnabyddir â CAD 1a:

Cymraeg (laith a Llenyddiaeth) drwy'r ysgol - sicrhau'r safonau uchaf yn y maes.

Addysgu tua 23 / 30 gwerau, pan fo modd, mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chydahwahanol lefelau oedran ac ystod gallu, weithiau mewn sefyllfa gynhaliol. Neilltuwyd cyfran sylweddol o "amser a enillir" ar gyfer dibenion rheolaethol.

Cymraeg yn ei holl agweddau. Yr athrawon, y disgyblion, y dysgu a'r addysgu, yr ystafelloedd dysgu, y storfeydd, y cyntedd a'r rhodfeydd, yr adnoddau, y polisiau a'r dangosyddion llwyddiant. Arolygu'r defnydd a'r gofal o'r ystafelloedd, y storfeydd a'r cynteddau gweithgaredd ac adnoddau gan annog a chynorthwyo athrawon y maes i greu awyrgylch ddeniadol a bywiog drwy arddangosfeydd chwaethus ac adnoddau sy'n hybu dysgu ac amodau sy'n boddio rheolau Iechyd a Diogelwch.

Hyrwyddo nod ac amcanion cyffredinol yr ysgol gan sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn nodau ac amcanion y maes. Y safonau a'r ddisgyblaeth academaidd a osodir gan yr ysgol a'r maes. Gosod y safonau uchaf a'u monitro er mwyn sicrhau fod pob ymdrech yn cael ei wneud gan athrawon a dysgwyr i gyrraedd eu targedau. Golyga gydweithio yn y dosbarthiadau er mwyn adolygu gwaith ac ymateb disgyblion ac asesu a safoni'r gwaith yn ogystal â delio'n briodol â phlant a gyfeirir am ddiffygion sy'n ymwneud â'u gwaith [yn unol â pholisiau'r ysgol].

Sicrhau ansawdd, monitro a chydweithio â'r athrawon pwnc i lunio rhaglen ddysgu fanwl sy'n cynnwys meysydd llafur pwrpasol a chynlluniau gwaith addas yn seiliedig ar y Cwricwlwm newydd a'r strategaethau Cenedlaethol a sirol - (CA 3, 4 a 5) ar gyfer yr holl ystod gallu ac oedran. Sicrhau fod yr holl raglenni dysgu wedi eu llunio yn unol â fformat cytunedig yr ysgol a bod y polisi cwricwlaidd a'r polisi iaith yn eu holl agweddau yn cael eu gweithredu'n fanwl a chydwybodol gan yr athrawon. Sicrhau fod deunyddiau dysgu addas yn cael eu

darparu ar gyfer disgyblion o bob oed a gallu gan ofalu eu bod yn cael eu hadnewyddu'n gyson yn ôl gofynion y cwricwlwm.

Penderfynu, mewn ymgynghoriad a'r athrawon pwnc, ar dulliau effeithiol o asesu cynnydd disgyblion yn y pwnc, a sicrhau bod pob athro pwnc yn cwblhau'r asesiadau ar gyfer adolygiadau rheolaidd o gynnydd y disgyblion yn ogystal â chwblhau adroddiadau cyfamserol a'r adroddiad blynyddol ar waith y disgyblion i'w rhoi i'r disgyblion, y rhieni, ac yn ffeiliau'r disgyblion. Penderfynu, yn unol â pholisi'r ysgol, ac ar y cyd â'r athrawon pwnc ar ddull priodol ac effeithiol o drefnu disgyblion mewn dosbarthiadau, grwpiau a/neu setiau sy'n cynnig yr her briodol ac yn sicrhau mynediad i gyrsiau pellach. Penderfynu ar y cyd â'r athrawon pwnc ar lefel briodol ac arholiadau allanol addas i'w sefyll gan y disgyblion. Arwain, cyd-drafod a chydweithio â'r athrawon pwnc i ddadansoddi ac arfarnu canlyniadau a llunio adroddiadau yn unol â pholisi ACaTh yr ysgol. Cadw cofnod manwl o ganlyniadau'r profion/arholiadau, a'u dadansoddiadau. Coladu adroddiadau er mwyn creu adnoddau crynodynol fydd yn cyfrannu i'r broses Hunanarfarnu.

Datblygu a monitro'r agweddau trawsgwricwlaidd a sicrhau fod disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig (boed ar sail anawsterau dysgu, anghenion corfforol neu anghenion ieithyddol) wedi eu canfod ac yn derbyn cynhaliath ac ymyrraeth briodol.

Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda holl athrawon y pwnc / maes i drafod polisiau a datblygiadau cwricwlaidd, cynnwys y meysydd llafur, dulliau dysgu, monitro gwaith a datblygiad y disgyblion, dulliau asesu a chofnodi cyraeddiadau, polisiau, materion gweinyddol ayyb gan drefnu fod yr athrawon a'r TA yn derbyn rhaglenni ymlaen llaw a'r cofnodion [cryno] yn ddiymdroi – mae hyn hefyd yn rhan o'r rôl ehangach o gynnal trefn gyfathrebu effeithiol oddi mewn i'r maes a bod yn ddolen gyswllt rhwng yr adrannau/ pynciau â TA a'r Llywodraethwyr.

Llunio cwricwlwm blynyddol y maes ac argymhell dulliau effeithiol o weithredu'r cwricwlwm ar ffurf amserlen [gan roi'r sylw dyladwy i sicrhau cydbwysedd a chroesdoriad teg o ran oedran a galluoedd] - mewn cydweithrediad â'r TA.

Cydweithio â'r Arweinwyr Meysydd Dysgu a Phrofiad / Tîm Arweinyddol a'r Cydlynwyr trawsyngol i sefydlu a hyrwyddo'r sgiliau a chymwyseddau trawsbynciol.

Rhannu cyfrifoldebau a dyletswyddau pynciol yn flynyddol ymysg athrawon y maes - drwy drafodaeth â hwy [a'r TA] a chan gadw mewn cof eu harbenigedd, eu profiad a'u datblygiad proffesiynol.

Lledaenu gwybodaeth am adroddiadau a chylchlythyrau'r AALI, y Llywodraeth a'r asiantaethau a chymdeithasau lleol a chenedlaethol, llenwi holiaduron a chyfrannu tuag at yr ymatebion.

Hyrwyddo holl gysylltiadau cymunedol y dimensiwn Cymraeg a dealltwriaeth Ewropeaidd a Byd Eang y maes ee rhieni, diwydiant, y wasg, ysgolion cynradd.

Y Cynllun Datblygu, anghenion a blaenoriaethau – Arwain, cyd-drafod a chydweithio ag athrawon pwnc i lunio cynllun datblygu'r maes, cynnal arfarniad blynyddol o holl weithgareddau'r maes, a monitro'r cynllun yn dymhorol; monitro'r gwariant – gweithredu fel Arfarnwr Ariannol [gweler y Llawlyfr Cyllid].

Goruchwylio'r drefn o archebu deunyddiau ac offer ac am fonitro a rheoli'r defnydd o holl adnoddau'r Maes Dysgu megis dodrefn, llyfrau, offer, cyfrifiaduron a deunyddiau dysgu (llyfrau stoc a chyfrifon efo staff ategol yr ysgol).

Arwain hunanarfarniad blynyddol y maes: yn dilyn trafodaethau gydag athrawon o fewn y maes - pennu blaenoriaethau, bwydo'r deilliannau i'r cynlluniau datblygu, gweithredu'r argymhellion a monitro gweithrediad polisiau'r ysgol yn y gwersi a'r tu allan i'r gwersi.

Rheoli Perfformiad – Dilyn Polisi Rheoli Perfformiad yr ysgol. Gweithredu fel arweinydd tîm i bennu targedau / amcanion, monitro ac arfarnu'r cynnydd yn dilyn canllawiau statudol a gyflwynir yn y polisi.

Datblygiad proffesiynol holl aelodau'r maes dysgu (mewn ymgynghoriad â'r TP) a rhoi anogaeth a sicrhau cyfle iddynt fynychu cyrsiau hyfforddiant ac ehangu profiad a hyder drwy raglen gytunedig o HMS. Cymryd rhan yn y drefn benodi – cynnig cyngor proffesiynol i'r Pennaeth a'r Panel Penodi. Sicrhau fod staff newydd yn ymgartrefu yn yr ysgol. Gweithredu fel cyfaill beirniadol i athrawon ar drothwy eu gyrfa. Cyd-weithio â'r TP i anwytho athrawon ar eu blwyddyn gyntaf. Mentora'r athrawon dan hyfforddiant (yn ôl amodau'r trefniant â'r Prifysgolion).

Gwasanaethu fel aelod o Dîm Arweinyddol yr ysgol, paratoi adroddiadau, mynychu'r cyfarfodydd a chyfrannu at y trafodaethau, cynnig arweiniad a gweledigaeth ysgol gyfan. Ysgwyddo cyfrifoldeb corfforaethol, cynnig arweiniad i weddill y gweithlu a gweithredu fel lladmerydd ar ran y Tîm Arweinyddol.

Cynrychioli'r ysgol mewn cyfarfodydd sirol, rhanbarthol a chenedlaethol.

NODIADAU:

1. Mae'r cyfrifoldebau yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyffredinol a gynhwysir yn y ddogfen flynyddol : **“Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon ysgol 2017 a Chanllawiau ar Gyflog ac Amodau Athrawon ysgol”:**

20.4

- canolbwyntio ar addysgu a dysgu
- yn mynnu bod yr athro yn arfer barn a sgiliau proffesiynol
- yn mynnu bod yr athro yn arwain, rheoli ac yn datblygu pwnc neu faes cwricwlwm; neu'n arwain ac yn rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- yn effeithio ar gynnydd addysgol disgyblion heblaw'r dosbarthiadau neu'r grwpiau o ddisgyblion a neilltuwyd i'r athro;
- yn cynnwys arwain, datblygu a gwella arfer addysgu staff eraill
- cyfrifoldeb ychwanegol parhaus yn cynnwys cyfrifoldeb rheolwr llinell dros nifer sylweddol o bobl.

Athrawon – Cyfrifoldebau Proffesiynol

ADDYSGU :

50.2 Cynllunio ac addysgu gwersi i'r dosbarthiadau y caiff ei neilltuo i'w haddysgu yng nghyd-destun cynlluniau, cwricwlwm a chynlluniau gwaith yr ysgol

50.3 Asesu, monitro, cofnodi ac adrodd am anghenion dysgu, cynnydd a chyflawniadau'r disgyblion a neilltuwyd

50.4 Cymryd rhan mewn trefniadau i baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol

TREFNIADAETH, STRATEGAETH A DATBLYGIAD YSGOL GYFAN:

50.5. Cyfrannu at ddatblygu, gweithredu a gwerthuso polisiau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol mewn ffordd sy'n cynorthwyo gwerthoedd a gweledigaeth yr ysgol.

50.6. Gweithio gydag eraill ar ddatblygiad disgyblion a/neu'r cwricwlwm, er mwyn sicrhau canlyniadau cydgysylltiedig.

50.7. Yn ddarostyngedig i baragraff 52.7, goruchwylio, ac i'r graddau sy'n ymarferol, addysgu unrhyw ddisgyblion os nad yw'r sawl a nodwyd yn yr amserlen i addysgu'r dosbarth ar gael i wneud hynny.

IECHYD, DIOGELWCH A DISGYBLAETH

50.8. Hyrwyddo diogelwch a lles disgyblion.

50.9. Cynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith disgyblion.

RHEOLI STAFF AC ADNODDAU

50.10. Cyfarwyddo a goruchwylio staff cymorth a neilltuwyd iddynt ac athrawon eraill pan fo hynny'n briodol.

50.11. Cyfrannu at recriwtio, dewis, penodi a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth.

50.12. Trefnu adnoddau a ddirprwywyd iddynt.

DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

50.13. Cymryd rhan mewn trefniadau i werthuso ac adolygu eu perfformiad eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, berfformiad athrawon eraill a staff cymorth.

50.14. Cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer eu hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol pellach eu hunain a, phan fo hynny'n briodol, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol athrawon eraill a staff cymorth, gan gynnwys gweithgarwch ymsefydlu.

CYFATHREBU

50.15. Cyfathrebu â disgyblion, rhieni a gofalwyr.

GWEITHIO GYDA CHYDWEITHWYR A GWEITHWYR PROFFESIYNOL PERTHNASOL ERAILL

50.16. Cydlafurio a gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill yn yr ysgol a thu hwnt i'r ysgol.

Diwrnodau gwaith

51.2. Rhaid i athro a gyflogir yn llawn amser fod ar gael i weithio 195 diwrnod, ac o blith y rhain:

a) rhaid i 190 o ddiwrnodau fod yn ddiwrnodau pan fydd yn ofynnol i'r athro addysgu disgyblion a chyflawni dyletswyddau eraill; a

b) rhaid i 5 diwrnod fod yn ddiwrnodau pan fydd yn ofynnol i'r athro gyflawni dyletswyddau eraill yn unig; a

rhaid i'r 195 o ddiwrnodau hynny gael eu nodi gan y cyflogwr neu, os bydd y cyflogwr yn rhoi cyfarwyddyd o'r fath, gan y pennaeth.

Mae'r swydd ddisgrifiad hwn yn disgrifio dyletswyddau a chyfrifoldebau ond nid yw'n argymhell amser penodol i'r dyletswyddau hyn ac ni ddylid ei ddehongli felly. Yn ychwanegol at yr 195 diwrnod \ 1265 awr nodir fod disgwyl i athro weithio, o fewn rheswm, yr oriau ychwanegol hynny sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau proffesiynol.

Mae'n ofynnol i'r deilydd ddefnyddio yr oriau dan gyfarwyddyd yn unol â chynllun swyddogol a bennir gan y Pennaeth.

Gellir amrywio'r dyletswyddau i gyfarfod â newidiadau mewn gofynion ysgol yn ôl disgrisiwn y Pennaeth. Nid yw'r swydd ddisgrifiad hwn yn ffurfio rhan o gytundeb cyflogaeth. Mae'n disgrifio'r ffordd y disgwylir i'r deilydd weithredu a chwblhau'r dyletswyddau a nodir.

CPA: Diogelwyd 10% o amser addysgu ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu (gan gynnwys cynllunio'r defnydd priodol o gymorthyddion dosbarth. Disgwylir i athrawon dreulio'r cyfnodau CPA yn gweithio. Mae'r rheoliadau yn nodi nad yw'n angenrheidiol rhoi cyfnodau CPA ar ddyddiau pan gynllunir amserlen amgen

2. Mae'r cyfrifoldebau yn ddarostyngedig i "**Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth**" (O Fedi 2018) yn unol â'r gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin canlynol :
 - Hawl broffesiynol : mae gan yr athro hawl broffesiynol i fod yn rhan o ysgol sy'n ystyried ei hun yn sefydliad dysgu. Mae gan yr athro yr ymreolaeth i gyfrannu at y proffesiwn yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang ac mae ganddo'r hawl i ddechrau a chefnogi gwelliannau i'r ysgol er budd dysgwyr.
 - Rol yn y system : mae'r athro yn ymrwymedig i ddysgwyr ym mhob man ac mae'n chwarae rhan ddylanwadol wrth ddatblygu diwylliant addysg cydlynol yng Nghymru.
 - Dysgwr proffesiynol : Mae'r athro yn ddysgwr proffesiynol ac yn ymrwymo i ddatblygu, cydweithredu ac arloesi'n barhaus drwy gydol ei yrfa.
 - Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol : Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hollbwysig. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.
 - Hawliau dysgwyr : Bydd anghenion a hawliau dysgwyr yn ganolog ac yn cael blaenoriaeth yn ymagwedd yr athro at ei swydd. Mae gan yr athro ddisgwyliadau uchel ac ymrwymiad i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni.
 - Iaith a diwylliant : Mae'r athro yn pwysleisio'n gyson ei bod yn hollbwysig hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin sgiliau ym mhob maes dysgu ac achubir ar bob cyfle i ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr.

Disgwylir i bob athro ymrwymo i 5 safon proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth :

1. ADDYSGEG
2. CYDWEITHREDU
3. DYSGU PROFFESIYNOL
4. ARLOESI
5. ARWEINYDDIAETH

DISGRIFYDDION AR GYFER ROLAU ARWEINYDDOL FFURFIOL

1. ADDYSGEG:

Mae'r athro sydd mewn rol arweinyddol ffurfiol yn atebol am addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r 4 diben ar gyfer dysgwyr a sicrhau'r gorau ar eu cyfer o ran safonau, llesiant a chynnydd.

Mireinio addysgu – o weledigaeth i ddarpariaeth i effaith

- **hyrwyddo'r welediageth addysgol ar gyfer 2025:** datblygu strategaethau, strwythurau a systemau i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol i gyflawni ei gweledigaeth
- **cynnal addysgu hynod effeithiol:** sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg hynod effeithiol ym mhob cyd-destun; meithrin brwdfrydedd pob aelod o staff dan eich gofal i fod yn chwilfrydig ynghylch dysgu fel y gellir annog pawb i wella'u hunain er budd y dysgwyr;
- **sicrhau bod y strategaeth a'r seilwaith yn addas at y diben:** sicrhau bod arferion a dulliau rheoli tymor hwy yr ysgol yn adlewyrchu'r weledigaeth strategol barhaus. Caiff unrhyw wrthdaro rhwng y drefn ddyddiol a'r weledigaeth ei drin. Rhannu, herio a mynegi'r strategaeth ar bob lefel ac er mwyn cysoni trefniadau seilwaith â dibenion a deilliannau;
- **creu amgylchedd dysgu effeithiol a chynhwysol:** mae'r amgylchedd dysgu wedi'i drefnu'n bwrpasol ac yn ei gwneud yn bosibl i gyflawni'r 4 diben dysgu. Creu a chynnal ethos sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.
- **hyrwyddo dulliau addysgol:** sicrhau bod uchelgeisiau a datblygiadau parhaus i'r cwricwlwm yng Nghymru yn ategu ac yn ysgogi'r agenda ar gyfer ansawdd addysgu yn yr ysgol; ystyried effeithiolrwydd a defnydd o ddulliau addysgol o amrywiaeth o ffynonellau yn rheolaidd;
- **gwrando ar ddysgwyr:** defnyddio safbwyntiau dysgwyr i roi cipolwg ar effeithiolrwydd adrannau a chyfnodau dysgu.

Hyrwyddo dysgu – rhoi polisi ar waith

- **hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru:** gosod esiampl i ddysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned drwy ymrwymiad cadarnhaol i fwynhau dysgu Cymraeg; manteisio ar bob cyfle i werthfawrogi a hyrwyddo diwylliant Cymru a chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol;
- **sicrhau'r 4 diben i ddysgwyr:** sicrhau bod y 4 diben yn cael sylw cyson wrth gynllunio ac yn ymarferol ac yn cael eu hymgorffori, eu datblygu a'u hymestyn drwy'r ysgol
- **ymelwa ar feysydd dysgu:** ei gwneud hi'n bosibl i ddatblygu'r 4 diben dysgu drwy roi cymorth cynllunio a phwysleisio disgyblaethau gwahanol bynciau mewn cyd-destun er mwyn hyrwyddo addysgu effeithiol iawn; annog yn gyson a hyrwyddo dealltwriaeth ddofn o ddull disgybliedig tuag at gynnwys pwnc o fewn y 4 diben ac ar draws y meysydd dysgu;
- **gosod cyd-destunau bywyd go iawn, dilys:** helpu cydweithwyr i strwythuro profiadau dilys o fewn ac ar draws ffiniau pynciau; galluogi dysgwyr i ddechrau, ysgogi a myfyrio ar brofiadau dilys ym mhob un o'r 4 diben;
- **defnyddio themau trawsgwricwlaidd:** Helpu cydweithwyr i feithrin cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu er mwyn datblygu profiadau cydlynol i ddysgwyr; gwneud cynlluniau i sicrhau bod themau trawsgwricwlaidd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Mae'r amrywiaeth yn cynnwys dysgu cymhleth sy'n dod i'r amlwg drwy fyfyrion effeithiol ar ddysgu.

Dylanwadu ar ddysgwyr – sicrhau safonau, lles a chynnydd

- **derbyn atebolrwydd am ddeilliannau a lles dysgwyr:** hyrwyddo ac yn sicrhau bod llwyddiant dysgu, cyflawniad a lles pob dysgwr i'w gweld drwy'r ysgol i gyd.

- **sicrhau a gwarchod hawliau dysgwyr:** sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY yn cael cyfleoedd ac yn cyflawni; sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar hawl i gael y profiad ysgol gorau posibl
- **monitro a gwerthuso effaith:** defnyddio systemau effeithiol yn gyson i fonitro a gwerthuso effaith yr holl brofiadau dysgu ar gynnydd dysgwyr a sicrhau gwelliant parhaus; addysgeg effeithiol yw calon yr ysgol a phrif ffocws arweinwyr
- **adrodd ar effeithiolrwydd:** Caiff y broses o adrodd ar gynnydd a lles dysgwyr ei rheoli'n effeithiol gyda'r ystod lawn o asiantaethau a phartneriaid cyfrifol ac allanol. Caiff argymhellion sy'n deillio o adroddiadau eu mynegi, eu rhoi ar waith a'u trin yn effeithiol. Caiff dysgwyr eu cynnwys yn llawn yn y broses.

2. CYDWEITHREDU: Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn creu amodau sy'n sicrhau bod pawb yn fodlon helpu ei gilydd a chydweithio'n effeithiol o fewn a thu hwnt l'r ysgol i ledaenu addysgeg effeithiol.

- **ceisio cyngor a chymorth:** Caiff heriau proffesiynol yr arweinwyr a'r ysgol eu cydnabod, eu derbyn, eu hegluro a'u trin drwy gydweithio ffurfiol a strwythuriedig er budd dysgwyr ar draws y gymuned addysg.
- **cynnal diwylliant o gydweithio:** Mae ysgolion partner, adrannau ac unigolion o fewn yr ysgol yn elwa ar amrywiaeth greadigol o gymorth hyblyg a chyson o ansawdd uchel i'w helpu i ddatblygu arfer proffesiynol
- **gweithio'n gynhyrchiol gydag asiantaethau allanol:** manteisio ar gyfleoedd i alluogi a chynorthwyo cydweithwyr i weithio gydag asiantaethau allanol er budd dysgwyr; hyrwyddo a hwyluso cydweithredu pwrpasol a gwerthfawr â chyflogwyr, busnesau, llywodraeth a gweithwyr addysg proffesiynol eraill ar agweddau cyffredin ar drefnu dysgu a dulliau gweithredu arloesol
- **ymgysylltu â chymuned ehangaf yr ysgol:** meithrin a chynnal cydberthnasau effeithio ac agored â rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol ehangaf sy'n rhoi rhan weithredol a chadranhaol i bartneriaid ym mhrofiadau a chynnydd y dysgwyr
- **galluogi gwelliannau parhaus:** Caiff meysydd sy'n peri pryder yn eu harferion eu hunain ac arferion pobl eraill eu nodi a'u harchwilio'n gywir. Ceir parodrwydd i geisio a chynnig cyngor ac mae arweinwyr yn llywio cynllun i sicrhau perfformiad gwell. Hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i gydweithredu ar gyfer staff dan eich gofal, o ran agweddau cyffredin ar drefnu dysgu, a thrwy ddulliau gweithredu arloesol, gan gynnwys defnyddio technolegau newydd

3. DYSGU PROFFESIYNOL : Mae'r athro sydd mewn rôl arweinyddol ffurfiol yn ysgogi dyhead am ddysgu proffesiynol sy'n cael ei werthfawrogi, sy'n cael effaith ar addysgeg ac sy'n cynnal datblygiad proffesiynol ar draws cymuned sy'n dysgu, yn yr ysgol a thu hwnt iddi.

- **darllen ehangach a safbwyntiau ymchwil:** cynnal a datblygu agwedd adeiladol a pherthnasol tuag at astudio ymhlith cydweithwyr
- **rhwydweithiau a chymunedau proffesiynol:** gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyfrannu at gymunedau dysgu, cynadleddau, cyfnodolion ac ymchwil
- **cefnogi twf ac arweinyddiaeth ym mhob rhan o'r system:** ymrwymiad amlwg i ymgysylltu y tu hwnt i'r ysgol ac elwa ar y cyfleoedd er mwyn ceisio meithrin

dealltwriaeth, ymarfer gwell a deilliannau gwell mewn pynciau a chyfnodau dysgu.

- **helpu eraill i dyfu:** gweithio fel modelau rol; galluogi'r holl staff dan eich gofal i gyrraedd y safon uchaf bosibl gan gydnabod a chyflawni eu potensial mewn cyddestun dwyieithog
- **dysgu proffesiynol parhaus i bob aelod o staff:** sicrhau bod yr holl staff dan eu gofal gan gynnwys nhw eu hunain yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus a phenodol gan gynllunio twf proffesiynol yn ofalus yng nghyd-destun y 4 diben ac ymrwymiad i greu cyfleoedd datblygu i gydweithwyr o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi

4. ARLOESI : Mae'r athro sydd mewn rol arweinyddol ffurfiol yn sicrhau amodau cadarnhaol ar gyfer arloesi cydlynol y gellir ei reoli, a deilliannau sy'n cael eu harfarnu, eu dosbarthu a'u rhoi ar waith.

- **tuag at 2025:** rhoi sylw i'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru ac yn cydlynu arloesedd er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio dulliau arloesi rheoledig ac yn elwa arnynt
- **datblygu technegau newydd:** mae rhaglen arloesi strwythuriedig, hirdymor sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar waith ar gyfer yr ysgol gyfan er mwyn ateb heriau, rheoli newid a datblygu dysgu'n effeithiol er mwyn gwella deilliannau.
- **ceisio ac ymestyn arfer gorau:** sicrhau bod arbenigedd a phrofiad yr ysgol yn cael eu datblygu'n barhaus a'u rhannu ar draws yr ysgol a thu hwnt
- **gwerthuso effaith newidiadau'n ymarferol:** Caiff tystiolaeth sy'n deillio o arfer arloesol ei chasglu a'i rhannu ag eraill o fewn cymuned yr ysgol a'r tu allan iddi er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth a chyfrannu at ddatblygiadau cysylltiedig mewn mannau eraill.

5. ARWEINYDDIAETH : Mae'r athro sydd mewn rol arweinyddol ffurfiol yn gweithio mewn ffordd deallus i sicrhau cysondeb, eglurder ac ymrwymiad a rennir i wireddu'r weledigaeth ar gyfer addysgeg, dysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach.

- **hyrwyddo addysgu ac arweinyddiaeth:** hyrwyddo addysgu yng Nghymru fel ymrwymiad proffesiynol o fri, uniondeb a pharch; dangos optimistiaeth cryf sy'n cael ei ategu gan yr awydd i sicrhau bod y 4 diben yn cael eu cyflawni
- **arfer cyfrifoldeb corfforaethol ym mhob cydweithiwr:** caiff polisiau y cytunwyd arnynt, boed yn bolisiau ysgol, lleol neu genedlaethol, eu harchwilio er mwyn sicrhau y cydymffurfir â hwy yn ymarferol, a chaiff unrhyw ddiffygion eu trin a chaiff camau priodol eu cymryd. Os cynigir cymorth penodol, caiff archwiliadau pellach eu cynnal.
- **grymuso eraill:** nodi ac yn hyrwyddo arfer hynod effeithiol yn seiliedig ar y 4 diben . Mae arweinyddiaeth i'w gweld fel rhan annatod o addysgu gan gynnwys rhoi'r esiampl, y cymorth, yr arweiniad a'r her sydd eu hangen i sicrhau'r deilliannau gofynnol. Mae'n ystyried profiad cydweithwyr eraill a'r heriau sy'n eu hwynebu ac mae'n eu hannog i ffynnu.
- **dirprwyo a grymuso:** dirprwyo cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn defnyddion sgiliau priodol i reoli pobl er mwyn bod yn effeithiol

- **cefnogi lleoliadau eraill:** ceisio cynnig cryfderau i helpu adrannau ac ysgolion eraill fel modelau rol ac esiamplau. Lle bod hynny'n briodol, mae cymorth neu addysgu ar y cyd yn rhoi arweiniad pendant.

CYFRIFOLDEB CYFFREDINOL

I gydymffurfio â Pholisi Diogelu Corfforaethol yr awdurdod lleol a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu y mae'r polisi hwnnw yn eu gosod ar bob gweithiwr gan alinio â gwerthoedd craidd yr Awdurdod sy'n cynnwys cefnogi plant, oedolion a allai fod mewn perygl a'u teuluoedd er mwyn eu cadw yn ddiogel ac yn iach.

Ni ddylid dehongli'r swydd ddisgrifiad hwn fel disgrifiad cyflawn o'r swydd. Adolygir a diwygir y swydd yn flynyddol ac fe ellir ei haddasu neu ei diwygio ar unrhyw adeg yng ngoleuni unrhyw ddeddfau cyflogaeth ac ar ôl ymgynghori gyda deilydd y swydd.

Gellir amrywio'r dyletswyddau i gyfarfod â newidiadau mewn gofynion ysgol yn ôl disgrisiwn y Pennaeth.

Dyddiad paratoi'r ddogfen Disgrifiad Swydd hon:

Hydref 2021

Arwyddwyd:[Deilydd y Swydd] [Dyddiad]

Arwyddwyd:[Pennaeth] [Dyddiad]

Copi: